ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	2 Mawrth 2022
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Yr Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433
PWNC:	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2022

1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.2 I roi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf ar y rhaglen waith y cytunwyd arni i'r Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2022.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau mewn cysylltiad â'i swyddogaeth drwyddedu a'r rheoliad, rheolaeth a gorfodaeth effeithiol Trwyddedai ac ymrwymiad yr Awdurdod i gymunedau mwy diogel a datblygiad yr economi.

2.2 Oherwydd blaenoriaethau annisgwyl, mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gymeradwywyd gan Aelodau mewn cyfarfod blaenorol yn anffodus wedi gorfod cael ei ddiwygio a materion wedi eu haildrefnu ar gyfer ystyriaeth.

3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Mae'n bosibl y bydd aelodau yn cofio yn y cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr 2021, cyflwynodd Swyddogion raglen waith wedi'i diweddaru a gymeradwywyd. Trefnwyd i Swyddogion gyflwyno nifer o faterion a ddiweddarwyd ar gyfer eich ystyriaeth i'r cyfarfod hwn, fodd bynnag, oherwydd nifer o ffactorau, bydd materion o'r fath yn cael eu cyflwyno i chi mewn cyfarfod yn y dyfodol. Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiwygiedig i'w gweld yn Atodiad A.

3.2 Mae swyddogion wedi manteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar faterion a ddylai fod wedi cael eu cyflwyno i'r

cyfarfod hwn fel y manylir isod:

3.2.1 **Adolygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat**

Mae Swyddogion yn gwneud cynnydd da gyda datblygiad Polisi Datganiad Trwyddedu drafft ar gyfer busnes tacsi yn dilyn argymhellion gan yr Adran Drafnidiaeth i weithredu'r Safonau Statudol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi llunio templed polisi ar gyfer awdurdodau Cymreig yn ddiweddar. Mae Swyddogion wedi cynnal ymarfer ymgynghori interim gydag aelodau busnes tacsi i gasglu barn y sawl sy'n gweithio o fewn y diwydiant, fodd bynnag, mae gwaith yn parhau i gwblhau'r ddogfen bolisi, fydd yn mynd i'r holl ddiwydiant a'r cyhoedd yn gyffredinol, fel y cytunwyd gan aelodau yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2021.

3.2.2 **Adolygu Datganiad o Egwyddorion - Deddf Gamblo 2005**

Mae adolygiad o Ddatganiad o Egwyddorion y Ddeddf Gamblo 2005 yn cael ei gynnal gyda'r chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru ac unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, bydd Swyddogion mewn sefyllfa i lunio adolygiad arfaethedig i'r Aelodau.

3.3.3 **Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd**

Yn y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021, roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo adolygiad drafft o'r Polisi Masnachu ar y Stryd. Cytunwyd i gefnogi sefydlu Is-grŵp i ddechrau yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau, a'r diben yw gweithio gyda swyddogion i ddatblygu'r polisi ymhellach cyn cyflwyno fersiwn terfynol ar gyfer cymeradwyaeth ac yna ymgynghoriad. Ers y diweddariad diwethaf, mae'r Is-Grŵp wedi cwrdd dwywaith a chytunwyd bod yna dal brif faterion fel marchnadoedd a strydoedd gwaharddedig sydd angen ystyriaeth bellach Cynigiwyd bod Aelodau yn trafod y materion hyn gyda'u grwpiau cyn ein cyfarfod nesaf.

3.3.4 **Datganiad o Bolisi Trwyddedu – Deddf Trwyddedu 2003**

Yn y cyfarfod ym mis Medi, roedd Aelodau wedi rhoi awdurdod i swyddogion ymgynghori ar ddatganiad polisi diwygiedig. Ers y cyfarfod hwnnw, mae Swyddogion wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y fersiwn diwygiedig o'r polisi yn bodloni gofynion hygyrchedd cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen ymgynghori nawr yn barod ac mae Swyddogion yn gweithio gyda Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn y Cyngor i sicrhau bod gofynion ymgynghori statudol yn cael eu bodloni. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i ystyried mabwysiadu'r polisi diwygiedig.

3.3.5 **Adolygu Ffioedd a Thaliadau**

Mae rhai ffioedd o fewn cylch gwaith yr Adain Drwyddedu wedi eu cynnwys o fewn deddfwriaeth e.e. trwyddedau alcohol a hapchwarae. Ble mae ffioedd yn gallu cael eu gosod yn lleol gan awdurdodau unigol mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni costau adferiad y prosesau dan sylw. Mae Swyddogion wedi bod yn gweithio ar weithredu dulliau electronig o ddefnyddio trwyddedau fydd yn newid y broses bresennol ar gyfer ymgeisio a rhoi trwydded yn sylweddol. Mae Swyddogion yn cynnig gohirio unrhyw adolygiad o ffioedd presennol nes bydd prosesau newydd yn barod i gael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn. Ni fydd hyn yn effeithio ar yr ystyriaethau parhaus ar gyfer y ffioedd tariff.

4. ARGYMHELLION

4.1 Argymhellir bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

4.2 Yn ogystal argymhellir bod Aelodau yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol diwygiedig a fanylir yn Atodiad A ar gyfer y flwyddyn 2022.